Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
RHAGFYR 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 20fed Rhagfyr, 2006
AMSER	8.00yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan

1. **Cyfarfod chwarterol gyda Gwyn Parry, Heddlu Gogledd Cymru**
Nodwyd nad oedd fawr o broblemau yn yr ardal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac roedd yntau wedi cael ei boenydio gan blant yn cnocio ar ei ffenest ac yn y blaen. Nodwyd ei gwynion ac fe addawodd Mr.Parry y byddai'n cadw golwg ar y sefyllfa.
Yr unig broblem arall sy'n codi yn yr ardal ydy gor-yrru drwy bentref Rhostryfan. Nododd Mr.Parry fod camerau gor-yrru wedi bod yn yr ardal yn ddiweddar ond nad ydynt wedi gweld unrhyw broblemau mawr, ond maent yn mynd i fonitro'r sefyllfa am y tri mis nesa.
Cafwyd cwynion am barcio yn anghyfreithlon ar y palmant yn Dinas ac am bobl yn 'double parcio' ger Aberalaw, Rhosgadfan. Addawodd i gadw golwg ac i gael gair pellach.
Nodwyd fod y llechi osodwyd yn ddiweddar i nodi safle hen gapel Grainfryn, Llanwnda wedi'u dwyn. Os oes gan unrhyw un wybodaeth am y lladrad, byddai'r cyngor neu'r heddlu yn falch iawn o gael clywed.
Gadawodd Mr.Parry y cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau**
Huw Williams, Glyn Owen, Neal Williams, Elwyn Jones, Jason Hunt, Nerys Evans, Tom Ellis, Elin Evans.
Cadeirwyd y cyfarfod gan Emrys Jones yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

3. **Croeso**

4. **Datgan Buddiant**
Dim

5. **Cadarnhau cofnodion** cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Tachwedd 15fed, 2006.

6. **Materion i'w trafod:**
   a) Barrier Ffrwd Cae Du – derbyniwyd lythyr gan D.W.Williams, Cyngor Gwynedd yn holi ble yn union dylid rhoi'r barrier. Clerc wedi anfon cynllun yn dynodi'r union safle. Angen rhoi gwybod mai barrier gyda 'sleeves' fyddai orau, gan y byddai modd eu tynnu mewn argyfwng. Hefyd angen gofyn i'r cyngor sir ymgynghori'n llawn gyda'r trigolion lleol ynglŷn â gosod y barrier.

b) Cynllun Uwchgwyrfai – ymateb gan Elwyn Vaughan, Cymad yn nodi'r problemau ac yn gofyn i'r cyngor ysgrifennu i'r Cynulliad i gefnogi'r cynllun. Clerc i anfon llythyr yn diolch am ei lythyr ond yn nodi y dylai'r problemau sydd dan sylw fod wedi cael eu setlo CYN gosod y gridiau, ac i nodi ein bod eisoes wedi sgwennu i'r Cynulliad sawl gwaith i gefnogi'r cais. Derbyniwyd llythyr hefyd gan Alun Ffred Jones AC yn nodi ei anfodlonrwydd gyda'r cynllun cyn belled a'i fod yn ceisio ymateb gan Carwyn Jones.

c) Llwybr rhwng Tyddyn Canol a Rhandir Mwyn. ElJ, Wyn Williams a'r clerc wedi cael cyfarfod safle i geisio cael Cyngor Gwynedd ffensio'r lein. Clerc i gysylltu efo'r perchnogion tir ac i adrodd yn ôl i'r cyngor.

d) Llythyr gan Chas Medforth ynglyn â pryniant tir ar gyfer Cefnfaes. Cafwyd ymateb gan berchnogion tir Bodaden yn nodi nad oes ganddynt ddiddordeb mewn gwerthu darn o dir. Nid oes ymateb wedi dod hyd yma gan Stâd Glynllifon.

e) Llythyr gan y Cynulliad ynglyn a'r arwyddion ffyrdd ar ffordd osgoi Groeslon. Mae'r llythyr yn nodi fod arwyddion wedi'u gosod ar gyfer cerddwyr, ond roedd ein cais ni'n gofyn am arwyddion rhybuddio gyrrwyr fod llwybr troed yn croesi'r ffordd. Clerc i ateb y llythyr.

f) Petisiwn yn erbyn y bwriad i newid trefniadau Ysgol Rhostryfan – cafwyd adroddiad gan HJ yn nodi'r ffaith ei bod yn sefyllfa fregus iawn gyda'r ysgolion a bod angen cefnogaeth gadarn ar yr ysgolion yn ystod y misoedd nesaf. Roedd felly'n annog pawb i arwyddo'r petisiwn ac i gefnogi chymaint â phosib.

g) TE – cwyno fod aelodau'r Cynulliad yn ffraeo ymysg ei gilydd – penderfynwyd trafod hwn pan fyddai TE yn bresennol.

h) MW – steps sy'n arwain i'r mynydd ger Ochr Muriau – y stepiau mewn cyflwr gwael iawn. Clerc i gysylltu efo'r Cyngor Sir i sefydlu pwy yn union sydd berchen y llwybr a pwy sydd â chyfrifoldeb dros ei drwsio.

i) MW – problem gyda llwybr sy'n mynd o Bryn Crin i Llwyn Onn (tu cefn i Bro Cadfan). Mae'r llwybr yn flêr iawn, gyda baw ci a mwd yn broblem ger mynedfa'r llwybr. Hefyd mae'r giât mochyn wedi diflannu ynghyd ag arwydd llwybr cyhoeddus. Clerc eisoes wedi cysylltu efo'r swyddog llwybrau yng Nghyngor Gwynedd.

7. **Derbyn Adroddiadau:**

8. **Is-bwyllgorau:**

9. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	23,117.39
Cyfri Siec:	412.97
CYFANSWM	23,530.36

Cais am braesept 2007/08 – penderfynwyd cadw'r praesept yr un fath â'r llynedd sef £11,700 gyda £3,000 grant gan Gyngor Gwynedd, yn gwneud cyfanswm o £14,700

Cyflog/costau clerc – Rhagfyr	371.36
Cyllid y Wlad	90.64
Wyn Williams – £39 - trwsio offer chwarae (cyfrif Tir Glas) a £44 glanhau cysgodfannau	83.00
Macemain Amstad – gosod cysgodfan yn Penyffridd	4,647.13
Hurio Stafell Canolfan Bro Llanwnda	6.00
CYFANSWM GWARIANT	**£5,198.13**
YN WEDDILL	**£18,332.23**

10. **Materion Cynllunio**

CO6A/0830/24/LL – Hafod Ty Newydd, Rhosgadfan – creu safle dreifio 4 x 4 – Gwrthwynebu. Derbyniwyd gwrthwynebiad drwy lythyr gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn a'r cais, ac roedd yr aelodau hefyd yn teimlo y byddai'r cynllun yn creu gormod o draffig ar ffyrdd anaddas ac yn amharu ar drigolion a'r amgylchedd leol.

CO6A/0786/24/LL – Cynllun diwygiedig i gais blaenorol am 13 o dai ger Bodawen Terrace Rhostryfan – Gwrthwynebu. Mae teimlad cryf iawn yn yr ardal yn erbyn y newidiadau i'r cynllun gwreiddiol. Byddai codi tai yn hytrach na byngalows yn amharu ar nifer helaeth o dai yn yr ardal, ac mae'r aelodau'n teimlo fod yr ymgais i newid y cais cyntaf yn annheg i'r trigolion lleol. Mae'r tai yn rhy fawr ac allan o gymeriad.

CO6A/0852/24/LL – Ty'n Ffrwd, Rhos Isaf – dymchwel tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd – dim gwrthwynebiad i'r cais. Fodd bynnag, hoffai'r aelodau dynnu sylw'r swyddogion i'r ffaith fod y tŷ hwn o ddiddordeb hanesyddol gan ei fod unwaith yn gartref i'r bardd Glasynys. Gofynnir felly i'r perchnogion gadw'r plac oedd wedi'i osod ar y tŷ i gofnodi hyn.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO6A/0783/24/CR – Tafarn Hen, Llanwnda – newidiadau mewnol ac allanol
CO6A/0842/24/LL – Maen Gwyn Bach, Rhosgadfan – sied amaethyddol
CO6A/0824/24/LL – Dinas Farm, Dinas – adeiladu estyniad un llawr ac ystafell haul
CO6A/0808/24/LL – Hafod Ruffydd, Rhosgadfan – estyniad

Wedi'u caniatau:
Llwyn Derw, Dinas - mynedfa/garej,
3-6 Bro Gilbert, Rhostryfan – lledu lôn i greu mannau parcio ceir
3 Tan yr Allt, Rhostryfan – estyniad

11. **Gohebiaeth:**

a) Cyfadran Adnoddau – gorychymyn i gau ffyrdd lleol i osod pibau dŵr newydd
b) Problemau baw cŵn – llythyr yn nodi fod swyddog newydd wedi'i benodi i daclo'r broblem, ac y dylem glywed ganddo'n fuan er mwyn trefnu cyfres o gyfarfodydd i drafod problemau baw cŵn
c) Ffordd Osgoi Bontnewydd – cyfarfod wedi'i drefnu ar yr 8fed o Ionawr yn Neuadd y Dref, Caernarfon – EmJ, GVT a'r clerc yn mynd i geisio mynychu.
d) Un Llais Cymru – llythyr yn gofyn am enwebiadau ar gyfer y pwyllgor gwaith cenedlaethol yn dilyn ymddiswyddiad Ifor Williams
e) Adroddiad ar dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle
f) Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Antur Nantlle
g) Llythyr gan Manon Griffiths, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn ymateb i'r cwynion ynglŷn â Ysgol Farchogaeth Gadlys – yn nodi fod y perchnogion yn cadw at y rheolau ac nad oes plant yn gyfrifol am fynd â'r teithiau marchogaeth allan.
h) Adroddiad am yr achos cryptosporidiosis yng Ngwynedd – copïau o'r adroddiad ar gael gan y bwrdd iechyd lleol neu ar www.nphs.wales.nhs.uk

12. Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf

Cae Garw, Rhos Isaf – cwynion wedi dod i law ynglŷn â chyflwr y ffordd. Mae'r perchennog wedi gaddo y bydd pibau dŵr newydd yn cyrraedd yn gynnar yn y flwyddyn newydd ac y bydd y gwaith atgyweirio yn digwydd yn fuan wedyn. Angen cadw golwg ar y safle, ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Cafwyd e-bost gan EE yn nodi fod dŵr yn casglu ar y ffordd ger White Towers. Adroddodd MW a GLW fod y gwaith atgyweirio bellach wedi digwydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB.